Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar
# Cylch Meithrin y Ffor
# Safle Ysgol Bro Plenydd
# Canolfan Y Ffor
# Y Ffor
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 6UP

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir y Cylch Meithrin yn y neuadd gymunedol ym mhentref bach Ffor yng Ngwynedd. Pentref gwledig ydy Ffor ar yr A499, rhyw 3 milltir i`r gogledd o Bwllheli.

Mae`r Cylch yn darparu addysg i`r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac yn gofrestredig gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn i fyny at 24 o blant yn y brif ystafell. Mae ystafell gerllaw hefyd wedi`i chofrestru gan AGGCC ar gyfer uchafswm o 16 o blant. Defnyddir yr ystafell hon pan mae`r ysgol yn gwneud cais i ddefnyddio`r neuadd. Mae 10 o blant ar y gofrestr, gyda 7 ohonynt yn 3 oed. Ar hyn o bryd, caiff pump o blant eu hariannu.

Mae`r plant sy`n mynychu`r Cylch yn dod o`r pentref a phentrefi cyfagos a`r gymuned wledig gyfagos. Daw`r rhan fwyaf o`r plant o gartrefi sydd â`r Gymraeg yn famiaith. Daw`r gweddill o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw neb o gartrefi di-Gymraeg a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais economaidd gymdeithasol.

Ar hyn o bryd, nid oes yr un plentyn yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol a does neb wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae`r Cylch yn croesawu plant beth bynnag yw eu cefndir neu allu ac mae plant fel hyn wedi mynychu yn y gorffennol. Mae`r Cylch yn wyliadwrus wrth nodi unrhyw blentyn sydd ag anghenion posibl ac yn gweithio gyda rhieni yn yr achosion hyn er mwyn sicrhau bod y plentyn yn derbyn y gefnogaeth anghenrheidiol.

Mae`r plant yn dod i`r Cylch o 2 oed gan adael am y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Mae`r Cylch yn gweithio`n agos gyda`r ysgol gynradd mae`r plant yn trosglwyddo iddi sydd wrth ymyl y Cylch. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddiad y plant oherwydd bod athrawes Feithrin yr ysgol yn adnabyddus iawn i`r plant yn y Cylch. Mae`r ysgol yn adrodd fod y plant sydd wedi mynychu`r Cylch yn ymgartrefu`n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae`r neuadd gymunedol sy`n cael ei defnyddio gan y Cylch yn adeilad fodern sydd newydd ei haddurno. Mae`r drws allanol, sydd ar glo bob amser, yn agor i gyntedd helaeth. Mae hysbysfwrdd yma sy`n arddangos gwybodaeth ddefnyddiol i rieni – mae`n bosibl i rieni ei weld wrth ddod â`u plant i`r Cylch neu`u casglu. Mae`r cyntedd yn agor i`r ddwy ystafell sy`n cael eu defnyddio gan y Cylch. Mae toiledau yma, gan gynnwys toiled i`r anabl.

Mae`r brif ystafell, sef y neuadd gymunedo,l yn fawr, helaeth a chynnes ac wedi`i rhannu`n briodol i ardaloedd o weithgareddau sydd wedi`u cynllunio`n dda i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae cegin fach ar un ochr o`r neuadd. Nid oes mynediad uniongyrchol i`r tu allan i`r plant ddefnyddio yn ystod cyfnodau chwarae rhydd, ond mae`r plant yn defnyddio cyfleusterau`r ysgol gan gynnwys ardal ar y buarth ar gyfer teganau mawr, a chae gyda chyfleusterau chwarae. Gan fod y neuadd yn cael ei defnyddio gan y gymuned, rhaid storio offer ar ddiwedd pob sesiwn.

Adroddiad ar Cylch Meithrin y Ffor
Mawrth 2012

Mae`r Cylch yn cyfarfod am bum bore`r wythnos (8.45 y.b. – 11.15 y.b.) yn ystod tymhorau`r ysgol.

Arolygwyd y Cylch ddiwethaf gan AGGCC ym mis Tachwedd 2011 ac mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â`r argymhellion mân.  Nid yw`r Cylch wedi cael ei arolygu gan Estyn o`r blaen.

.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Nodweddion rhagorol

- Mae`r arweinyddiaeth yn cynllunio ac yn goruchwylio amgylchedd dysgu sy`n llawn dychymyg.
- Mae ansawdd y cydberthynasau yn arbennig ac yn cefnogi datblygiad personol ac addysgol y plant yn llwyddiannus.

Nodweddion da

- Cyflawniad a chynnydd y plant yn eu dysgu ar draws pob maes dysgu.
- Medrau cyfathrebu`r plant a`u mwynhad o ddysgu, yn enwedig eu mwynhad o storiau ac edrych ar lyfrau.
- Yr ystod o brofiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.
- Y defnydd o asesu yn y cynllunio fel bod tasgau`n cyfateb yn dda ag anghenion y plant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer lles y plant, gan gynnwys eu gofal a`u datblygiad moesol a chymdeithasol.
- Ethos gynhwysol a goddefgar y Cylch, yn rhydd oddi wrth unrhyw ymddygiad gormesol.
- Hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.
- Y gefnogaeth gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu`r Mudiad Meithrin

**Rhagolygon gwella**

Nodweddion rhagorol

- Yr arweinyddiaeth arloesol sy`n sefydlu disgwyliadau uchel yn glir, ac yn gosod targedau heriol yn nhermau datblygiad personol ac academaidd y plant.
- Yr ethos gadarnhaol o fewn y Cylch a`r parodrwydd i gynnwys syniadau newydd.

Nodweddion da

- Strategaethau hunanarfarnu a chynllunio i sicrhau gwellaint.
- Mynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol a gweithredu syniadau.
- Cefnogaeth gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu`r Mudiad Meithrin
- Perthynas waith agos gyda`r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Rhiad i`r Cylch fod yn wyliadwrus o syniadau newydd er mwyn cynnal y safonau uchel presennol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y Cylch yn parhau i gynllunio a darparu`r ddarpariaeth o ansawdd uchel a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer y plant.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o`r plant yn cyflawni safonau da gan wneud cynnydd gyson dda a weithiau da iawn ymhob maes dysgu. Mae pob un o`r plant yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau; maen nhw`n dangos eu bod yn meddwl am eu tasgau, yn gwneud dewisiadau a gweithio`n ddiwyd. Maen nhw`n mwynhau edrych ar lyfrau yn enwedig, gan wneud hyn yn aml yn eu hamser rhydd.

Mae medrau llythrennedd y plant yn arbennig o dda. Mae ganddynt fedrau gwrando rhagorol a nodwedd dda a nodedig yw eu mwynhad o amser stori. Maen nhw`n gwrando`n astud ar storïau ac yn awyddus i ateb cwestiynau. Maen nhw`n mwynhau canu, yn enwedig caneuon actol ac yn mynegi eu teimladau yn eu hymatebion.

Mae pob un o`r plant yn dechrau creu marciau ac arbrofi gyda sialc a pheniau ffelt. Maen nhw`n gwybod rhai o swyddogaethau ysgrifennu fel defnyddio llyfrau nodiadau er mwyn cofnodi.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol, fel enwi siapiau, gan gynnwys trionglau, sgwarau a chylchoedd. Roedd llawer o blant yn medru dweud fod gan sgwâr bedair ochr. Mae llawer o blant yn dilyniannu gwrthrychau, fel marciau lliw ar linyn.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dechrau defnyddio technoleg fel ffonau symudol yn eu chwarae. Maen nhw`n rheoli teganau sy`n gweithio gyda batri, fel bee-bot, ac yn gyfarwydd â defnydd switsys ar offer fel chwaraeydd CD.

Mae pob un o`r plant yn mwynhau chwarae rôl ac mae hyn yn llwyddo i sbarduno eu datblygiad o iaith. Mae`u gwaith creadigol yn cynnwys cymysgu lliwiau, defnydd o siapiau ac olion llaw. Mae`u medrau echddygol manwl yn datblygu`n dda ac yn eu galluogi i ddefnyddio sisyrnau, paent a brwsys glud. Yn ogystal, mae`r plant yn mwynhau gweithgaredd corfforol, fel ymarferion ar y llawr i wneud siapiau gwahanol.

**Lles: Da**

Nodwedd dda ac arwyddocaol o`r Cylch yw mwynhad y plant a sut maen nhw`n cymryd rhan yn eu dysgu. Mae pob un o`r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Maen nhw`n dangos diddordeb canmoladwy yn y tasgau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer a`r gallu i wneud dewisiadau. Mae ganddynt y gallu i weithio`n annibynnol am gyfnodau sylweddol o

amser ond yn ddigon abl i weithio mewn grwpiau bach hefyd gan gyd-weithio`n dda gyda`i gilydd. Yn yr achosion yma, maen nhw`n gwrtais ac yn uniaethu â`i gilydd ac oedolion.

Mae`r plant yn datblygu dealltwriaeth briodol o faterion iechyd sylfaenol yn unol â`u hoedran. Maen nhw`n gwybod am y pwysigrwydd o gael dwylo glân ac yn ymwybodol o rai o`r bwydydd sy`n eu cadw`n iach.

Mae pob un o`r plant yn teimlo`n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o gamdriniaeth yn y Cylch ac mae hyn yn ffactor arwyddocaol yn natblygiad eu hunan hyder.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae pob un o`r plant yn elwa o weithgareddau arloesol a chyffrous sy`n ennyn diddordeb yr holl blant. Mae`r profiadau dysgu yn llwyddo i alluogi`r plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen.

Mae`r berthynas rhwng plant ac oedolion yn rhagorol ac yn amlwg yn y parch mae`r plant yn dangos tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae`r Cylch yn darparu`r plant ag amgylchedd diogel a chefnogol sy`n galluogi`r holl blant i fod yn hyderus a dangos eu hannibyniaeth a`u hunigolrwydd.

Cynhwysiad rhagorol a gwerthfawr iawn yn y cwricwlwm yw`r gweithgareddau sy`n cynnwys y plant yn gweithio gyda`u rhieni dros gyfnod o amser yn y Cylch. Drwy iaith, gemau, caneuon a gweithgareddau chwarae mae`n dangos i rieni yr hyn y gallant ei wneud mewn sefyllfaoedd cyffredin i ysgogi a chefnogi datblygiad eu plant. Mae hyn yn rhoi cefnogaeth dda iawn i ddatblygiad personol ac academaidd yn plant.

Mae medrau sylfaenol y plant, yn enwedig eu medrau llythrennedd, yn datblygu`n dda iawn. Mae gan bron bob un o`r plant feistrolaeth dda o`r iaith Gymraeg ac yn gyfarwydd â rhai o`r traddodiadau a dathliadau diwyllaint Cymru.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd i weld sut mae pethau byw yn derbyn gofal gan gynnwys anifeiliaid ifanc, fel dod ag ŵyn bach i mewn i`r Cylch i`r plant eu gweld. Mae astudiaethau o wledydd eraill fel Tsieina a`r Flwyddyn Newydd Tsienieaidd a`r arferion sy`n gysylltiedig yn helpu`r plant i werthfawrogi cymdeithasau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant ac yn deall gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac mae hyn yn cael ei wireddu`n ymarferol. Mae cydbwysed da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion, tu fewn a thu allan. Nodwedd dda iawn yw ymddygiad y plant. Mae oedolion yn trin plant â

pharch ac mae`r plant fel canlyniad yn dangos yr un faint o barch at eraill. Mae`r plant yn cymryd rhan yn weithredol wrth helpu`r oedolion ac yn teimlo`n rhan o`r amgylchedd dtsgu. Ni welwyd unrhyw achosion o oedolion yn ymyrryd heb reswm yng ngweithgareddau`r plant yn ystod yr arolygiad. Mae`r oedolion yn fodelau iaith dda a nodwedd ragorol o`r addysgu yw`r ffordd mae`r arweinydd yn adrodd stori. Yn yr achosion hyn, mae`r plant yn cael eu swyno gan y storïau ac mae`r mwynhad yn amlwg yn eu hwynebau. Mae amser stori bob amser yn llwyddo i ddal eu dychymyg.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio gyda`i gilydd yn dda iawn ac yn cael cefnogaeth dda iawn gan gyd-weithiwr o dan hyfforddiant sy`n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at addysg y plant.

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd gan gofnodi`r arsylwadau. Mae`r cofnodion yn cynnwys cyfeiriad at yr hyn a welwyd (gan gyfeirio at y 6 maes dysgu), dyddiad, y person yn cofnodi a`r ffordd ymlaen posibl. Hefyd, mae gan bob plentyn lyfryn â manylion ei gyflawniad/ei chyflawniad.

Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol iawn o`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Mae hyn yn sicrhau bod medrau`r plant yn cael eu datblygu`n gynyddol a`u hatgyfnerthu yn ôl yr angen. Mae`r gweithgareddau wedi`u cynllunio i fodloni anghenion a diddordebau`r plant a chaiff rhieni eu hysbysu am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda ar y cyfan a weithiau`n dda iawn.

Mae`r Cylch yn darparu`r plant ag amgylchedd gwaith cynnes a chefnogol sy`n meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn effeithiol. Mae`r gweithgareddau dyddiol yn datblygu medrau cymdeithasol y plant a`u helpu i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir.

Mae`r Cylch yn effeithiol iawn yn datblygu medrau personol y plant, datblygu eu hannibyniaeth a phan mae`n briodol eu gallu i weithio a chwarae gyda`i gilydd. Maen nhw`n dangos lefelau da o oddefgarwch a pharch at ei gilydd. Dyma agwedd dda iawn o waith y Cylch. Mae`r plant yn awyddus i helpu oedolion ac yn chwilio am gyfleoedd i gymryd rhan. Mae`r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac mae`r plant yn cael cyfleoedd da i werthfawrogi`r byd maent yn byw ynddo ac o`r bobl sy`n eu helpu.

Mae`r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Drwy arfarniad rheolaidd o gynnydd y plant maen nhw`n wyliadwrus wrth nodi unrhyw blentyn sydd ag anghenion ychwanegol posibl. Nid oes unrhyw blentyn ar hyn o bryd sydd wedi`i nodi ag anghenion tebyg ond mae systemau yn bodoli i gynnwys gwasanaethau proffesiynol lleol os oes angen. Mae cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol ac mae`r Cylch yn cydnabod yr angen i gynnwys rhieni ar bob cam.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelu`r plant. Arweinydd y Cylch yw`r aelod sydd wedi`i enwi â chyfrifoldeb am ddelio â diogelu plant. Mae`r holl staff wedi cael hyfforddiant diweddar a phriodol.

Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ansawdd eithriadol y cydberthynasau sy`n amlwg yn y Cylch yn cefnogi datblygiad y plant yn llwyddiannus, yn enwedig eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hyder ac annibynniaeth y plant lawer yn uwch na`r disgwyliadau.

Mae gan y Cylch ethos hollol gynhwysol sy`n darparu hawl gyfartal i`r cwricwlwm i`r holl blant. Mae awyrgylch goddefgar a chefnogol yn treiddio drwy`r lleolaid sy`n sicrhau bod yr holl blant a`r staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch ac ymddygiad gormesol. Mae`r polisïau a`r gweithdrefnau ar waith i sicrhau hawliau cyfartal i bawb, ac mae gweithdrefnau cwyno ar waith ond nid oes achos wedi bod i`w defnyddio.

Mae`r Cylch wedi`i staffio`n ddigonol gan unigolion sydd â chymwysterau perthnasol ac addas. Mae ganddynt brofiadau da iawn o ofalu am blant ac mae`r Cylch yn elwa ar hyn o bryd o bresenoldeb person o dan hyfforddiant – mae`r plant yn gwerthfawrogi`r cyfraniad hyn.

Mae`r adnoddau yn addas ac yn ddigonol i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn cyfateb yn dda â gofynion y plant. Gan fod y neuadd yn neuadd gymunedol, rhaid storio offer ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, mae`r arddangosfeydd o ansawdd da yn cael aros ar y waliau. Does dim ardal chwarae uniongyrchol sy`n galluogi`r plant i ddewis pryd i chwarae tu allan. Fodd bynnag, mae`r neuadd helaeth yn caniatáu cynnal gweithgareddau corfforol fesul grwpiau, ac mae`r Cylch yn elwa o ddefnyddio buarth a chae`r ysgol. Mae`r amgylchedd lleol, gan gynnwys ymweliadau â`r pentref, yn cyfoethogi canfyddiadau`r plant o`r byd o`u cwmpas.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae`r Cylch yn elwa o arweinyddiaeth rhagorol. Mae`n darparu`r lleoliad â chyfeiriad clir a synnwyr o bwrpas. Mae`r arweinyddiaeth wedi hyrwyddo ac yn cynnal ansawdd o ddarpariaeth hynod o effeithiol ar gyfer y plant.

Mae`r staff yn deall eu rolau ac yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion sy`n canolbwyntio ar ddysgu, ymddygiad a pherthynas. Mae`r staff a`r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu barn a`u safbwyntiau yn cael eu parchu.

Caiff amser ei reoli`n dda gyda chymysgedd rhagorol o weithgareddau sy`n cael eu harwain a`u cyfeirio gan oedolion ac amser i`r plant weithio`n annibynol. Mae hyn yn cynrychioli cynllunio rhagorol o weihthgareddau`r bore. Mae ethos rhagorol yn treiddio drwy`r Cylch sy`n cael ei amlygu gan ddisgwyliadau uchel o bob plentyn.

O fewn y cyd-destun hwn, mae`r plant yn gweithio a chwarae gan ddangos graddfa uchel o annibyniaeth gan wybod eu bod yn medru gofyn am gymorth ar unrhyw adeg.

Mae hyn yn rhoi`r gefnogaeth i`r plant ddatblygu fel unigolion a`r hyder i fynegi`u hunain. Drwyddi draw, mae`r arweinyddiaeth yn darparu`r fframwaith sy`n cynnwys y profiadau dysgu rhagorol sydd ar gael i`r plant, sy`n arwain at y deilliannau da a weithiau da iawn.

Mae`r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llawn dychymyg sy`n cyfateb yn dda â`u hanghenion. Mae`r plant yn cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau ac mae`r ymglymiad gweithredol a`u parodrwydd i helpu yn cael gwared ar unrhyw ffurf o ymddygiad gwael.

Mae`r plant yn hyderus ac yn sicr o`u hun ac yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Mae system effeithiol o fonitro ac arfarnu deilliannau a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen. Mae cysylltiadau da iawn wedi`u sefyldu â rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill.

Drwyddi draw, mae hyn yn cynrychioli arweinyddiaeth eithriadol a`r safonau uchel o ddarpariaeth addysgol fel canlyniad.

Mae pwyllgor rheoli effeithiol sydd â`r profiad angenrheidiol i arfarnu`r ddarpariaeth. Maen nhw`n cael eu hysbysu`n dda o berfformiad y Cylch ac yn gefnogol o`r staff. Mae`r pwyllgor rheoli wedi ystyried y ddedfwriaeth berthnasol ac yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae`r Cylch wedi ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol fel mentrau bwyta`n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r ymarferwyr yn adnabod y Cylch yn dda. Mae cryfderau a meysydd i`w gwella yn cael eu cydnabod yn y ddogfen hunanarfarnu. Mae`r Cylch wedi bod yn wyliadwrus i gynnal arfer dda a gweithredu gwelliannau lle`n bosibl. Mae diwylliant o sicrhau gwelliannau lle`n bosibl a gweithredu syniadau newydd. Mae hyn yn amlwg yn y syniadau sydd wedi dod o fynychu cyrsiau hyfforddi gyda`r canlyniad o well ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae`r Cylch yn ystyried barn rhieni a phartneriaid eraill ac yn enwedig y gefnogaeth gan yr ysgol gynradd y mae`r plant yn trosglwyddo iddi. Yn ogystal, mae`r Cylch wedi rhannu eu profiadau â lleoliadau eraill. Mae digon o dystiolaeth i nodi bod y ddarpariaeth wedi gwella dros y blynyddoedd gyda`r safonau dilynol o gyflawniad y plant.

Adroddiad ar Cylch Meithrin y Ffor
Mawrth 2012

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r Cylch yn gweithio`n dda gyda rhieni sydd hefyd yn gefnogol iawn o`r Cylch. Mae`r mentrau sydd wedi`u cynllunio i ddangos i rieni sut y gallant gefnogi addysg eu plant wedi bod yn effeithiol iawn ac wedi`u gwerthfawrogi`n fawr gan rieni. Mae`r gweithgareddau wedi rhoi syniadau da iawn i rieni o`r hyn gallant ei wneud yn y cartref i gefnogi eu plant yn ystod gweithgareddau cyffredin er mwyn cefnogi addysg y plant ac i gryfhau`r berthynas rhwng rhiant a phlentyn. Mae`r rhieni yn cymryd rhan weithredol drwy wneud penderfyniadau yn ymwneud â`u plant. Mae cysylltiadau da ar waith gyda`r ysgol gynradd lle mae`r plant yn trosglwyddo iddi, ac mae`r ysgol yn gwerthfawrogi`r safonau uchel yn y datblygiad personol ac academaidd sy`n amlwg yn y plant sy`n dod o`r Cylch.

Mae cysylltiadau da iawn ar waith gyda athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu`r Mudiad Meithrin. Mae`r Cylch yn gwerthfawrogi`r cymorth a`r gefnogaeth yn nhermau gwella ansawdd yr addysg a ddarperir.

Drwyddi draw, mae ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff yn cael eu defnyddio`n dda a thrwy weithio gyda`i gilydd yn gwybod beth yw eu rolau a`u cyfrifoldebau. Mae`r adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda i ysgogi`r plant i ddysgu. Er bod yr adnoddau`n cael eu rhoi heibio ar ddiwedd y bore, mae pob sesiwn wedi`i threfnu ag ardaloedd o weithgareddau sy`n cefnogi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael effaith dda ar ddysgu`r plant.

Defnyddir yr amgylchedd tu allan yn dda i gefnogi dysgu`r plant. Drwyddi draw, mae`r Cylch yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd pob un o`r rhieni yn cytuno â`r datganiadau canlynol yn yr holiadur i rieni:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.*
**Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
**Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
**Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
**Mae`r addysgu yn dda.*
**Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
**Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
**Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
**Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
**Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
**Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*
**Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

*Roedd mwy na dri chwarter o`r ymatebwyr yn cytuno`n gryf â`r datganiadau hyn.

Roedd sylwadau gan rieni yn nodi`r gefnogaeth mae`r plant yn ei derbyn yn y Cylch, eu mwynhad a`r amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer y plant.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae pob plentyn yn hapus i ddod i`r Cylch - roedd rhieni yn cadarnhau hyn mewn trafodaeth. Mae`r plant yn dangos ymdeimlad o gyffro wrth ddod i mewn i`r Cylch ac yn fuan maen nhw`n cymryd rhan yn weithredol yn y gweithgareddau sydd wedi`u gosod ar eu cyfer. Mae ganddynt yr hunan hyder i weithio`n annibynnol a gwneud dewisiadau. Fodd bynnag, pan mae`n briodol i wneud, maen nhw`n chwarae`n hapus gyda`i gilydd. Maen nhw`n mwynhau gweithgareddau chwarae rôl yn arbennig.

Adroddiad ar Cylch Meithrin y Ffor
Mawrth 2012

Mae`r plant yn barod iawn i helpu staff ac yn chwilio am gyfleoedd i wneud hyn.  Mae ganddynt fedrau personol da, fel gwisgo`u cotiau a`u sgidiau cyn mynd allan.  Maen nhw`n siarad am eu mwynhad yn y Cylch a sut mae oedolion bob amser yn eu helpu.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)